# BAGLORIAETH CYMRU
# TYSTYSGRIF HER SGILIAU

Cenedlaethol/Sylfaen

# Her Dinasyddiaeth Fyd-eang

Cymorth Cristnogol

Argyfyngau Naturiol a Dynol – Dadleoliad pobl oherwydd yr argyfwng hinsawdd

**Ar gael i'w asesu o fis Medi 2023**

# Dadleoliad pobl oherwydd yr argyfwng hinsawdd

**PWRPAS**

Pwrpas yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yw meithrin sgiliau dysgwyr, wrth ddarparu cyfleoedd iddyn nhw ddeall materion byd-eang ac ymateb yn briodol i faterion byd-eang. Yn ystod yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang, bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym maes Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau a Chreadigrwydd ac Arloesi ac yn eu rhoi ar waith mewn modd priodol.

**BRIFF**



Mae llawer o broblemau yn y byd y dylai pob un ohonom helpu eu datrys, hyd yn oed os yw'n digwydd cannoedd neu filoedd o filltiroedd i ffwrdd, neu lle'r ydych chi'n byw yng Nghymru. Sut mae dod yn ddinesydd byd-eang? Mae angen i chi ddatblygu cydwybod ddynol a llunio barn am y materion sy'n bwysig a'r math o fyd y mae arnoch eisiau byw ynddo. Mae bod yn ddinesydd byd-eang yn rhoi'r pŵer i chi wneud newidiadau cadarnhaol i wneud y byd yn lle gwell.

Mae **Cymorth Cristnogol** yn elusen sy'n ariannu projectau yn rhai o wledydd tlotaf y byd. Mae'n helpu pobl i wella eu bywydau eu hunain ac i fynd i'r afael ag achosion tlodi ac anghyfiawnder. Cafodd ei sefydlu yn 1945 gan eglwysi yn y DU ac Iwerddon. Rydym yn elusen Gristnogol, ond rydym yn ariannu projectau sy'n helpu pobl waeth beth fo eu credoau. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau o bob ffydd a rhai sydd heb ffydd.

Mae sawl rheswm pam fod pobl yn cael ei gorfodi i symud, yn y degawd diwethaf amcangyfrifwyd fod 21.6 miliwn o bobl dros y byd wedi cael ei dadleoli o fewn eu gwlad bob blwyddyn o achos sefyllfaoedd peryglus yn ymwneud a'r hinsawdd. (IDMC, 2022). Yn gynyddol, rydym yn gweld sut mae'r argyfwng hinsawdd yn effeithio yn anghymesur ar bobl sy'n byw mewn tlodi, un o'r canlyniadau yw pobl yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi oherwydd tywydd eithafol. Mae partneriaid **Cymorth Cristnogol** yn gweithio gyda pobl sydd wedi cael eu dadleoli yn ogystal ag ar brosiectau sy'n cefnogi bob i wneud newidiadau yn sgil y newid hinsawdd er mwyn gallu creu bywyd newydd lle mae nhw.  Rydym hefyd yn ymgyrchu i gael cronfa colled a difrod er mwyn cynnig ryw iawndal i'r rheiny sydd wedi eu heffeithio waethaf gan yr argyfwng hinsawdd.

Yn ystod yr her yma, byddwch yn defnyddio ystod o wybodaeth ar pobl wedi'i dadleoli o achos yr argyfwng hinsawdd er mwyn llunio eich syniadau eich hun ar weithred pwrpasol fyddai yn gwneud gwahaniaeth ac yn peri i'r nifer yma leihau. Yna rhaid i chi godi ymwybyddiaeth o'r mater yma gyda bobl ifanc eraill yn eich ysgol neu ardal mewn ffordd greadigol ac arloesol.  Rhaid i chi ddylunio eich codi ymwybyddiaeth fel y bydd yn apelio at bobl ifanc, gan ei helpu i ddeall a chreu ei barn ei hunain am y ffactorau sy'n cyfrannu yn ogystal a datrysiadau posib.

Drwy gwblhau'r Her hon, byddwch yn dangos eich bod yn gallu rhesymu, llunio barn a gwneud penderfyniadau er mwyn creu safbwynt personol gwybodus ar ddadleoliad pobl oherwydd yr argyfwng hinsawdd, a beth gellir ei wneud i helpu. Mae'r gweithgaredd codi ymwybyddiaeth yn rhoi cyfle i chi ddangos pa mor greadigol ac arloesol y gallwch fod wrth gyfleu eich syniadau a chyflwyno eich neges i bobl eraill.

**ADNODDAU:** Plîs e-bostiwch cymru@cymorth-cristnogol.org i dderbyn pecyn digidol o'r Pecyn Ffynonellau.
**CYSYLLTIADAU:** cymru@cymorth-cristnogol.org